

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Gwenfyl Jones (Llansannan) y penwythnos diwethaf. Bu'n hynod o ffyddlon ar hyd y blynyddoedd yn y capel ac yng ngweithgareddau'r gymuned, cyn iddi symud i gartref Yr Hen Ficerdy ddwy flynedd yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Glyn, Adrian, David a John, a gweddiill y teulu yn eu profedigaeth. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Anfonwn ein cofion heddiw at Megan Evans (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, ac at bawb arall o'r ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd. Parhawn i gofio yn ein gweddiâu hefyd am Elwy Ll. Evans (Tanyfron) ddaeth adre o'r ysbyty ddechrau'r wythnos. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd.
- Parhawn i gofio hefyd am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Menna Owen, Miss W J Roberts, a Mrs Edith Maloney (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Kate Davies (Coed Môr, Abergele); Mrs Morfudd Williams (Dolwen, Dinbych); Mr Gwyn H. Davies (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych). Dymunwn Dduw yn rhwydd iddynt oll a diolchwn am y gofal y mae pob un ohonyn nhw'n ei dderbyn.

Galw gweinidog

Llawenydd yw cael eich hysbysu i'r bleidlais i alw Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar yr eglwys yng Ngofalaeth Bro Aled fod yn unfrydol. Llongyfarchiadau mawr Rhodri! Mae Rhodri wedi cwblhau ei hyfforddiant yn llwyddiannus gyda Choleg yr Annibynwyr ac yn disgwyl derbyn ei Dystysgrif Cymeradwyaeth yn ystod yr haf, ac yna bydd yn dod yn ôl i barhau ei weinidogaeth hefo ni ym Mro Aled o Fedi'r 1af, 2016 ymlaen. Llawnhawn yn naioni Duw tuag atom a gweddiwn y bydd bendith ar ei weinidogaeth yma yn y Fro. Dymunwn yn dda iddo ef a'r teulu wrth iddo ymgymryd â'r gwaith.

Mae gwaith y Pwyllgor Bugeiliol, felly, wedi dod i ben. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Bugeiliol a'r trysoryddion am eu cefnogaeth a'u cyfraniad i'r trafodaethau, ac yn arbennig felly i'r cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cwrdd Chwarter am eu cymorth parod gyda'r gwaith.

Bydd angen inni dros y misoedd nesaf, mewn ymgynghoriad â'r Henaduriaeth, drefnu cyfarfod i ollwng Aneurin o'i ddyletswyddau fel gweinidog, a threfnu Cyfarfod Ordeinio a Sefydlu Dr Rhodri Glyn yn weinidog ar Eglwys Bro Aled. Cewch fwy o wybodaeth ynglŷn â hynny maes o law.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5^{ed} Mehefin 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 6:1-8

(BCND tud. 624 / BCN tud.568)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da! Wrth i Eisteddfod yr Urdd gau ei drysau am dymor arall mae'n rhyfeddol beth a welsom yn y babell gydol yr wythnos a llongyfarchiadau i bob un o'r Fro ar eu llwyddiant a'u hymdrech. Rhaid cyfaddef fy mod yn gweld mwy o'r cystadlu o fod o flaen y teledu adre nag a fydda i wrth fynd i'r maes ei hun – gormod o siarad wrth gerdded o un stonin i'r llall! Ond o gael mantais y nifer helaeth o gamerâu sydd o gylch y babell, mae'n bosib cael golwg agos iawn ar y cystadleuwyr a darllen y llawenydd, y gobaith a'r siomedigaeth hefyd weithiau yn eu hwynebaw.

Yn y darlleniad heddiw mae hanes Eseia yn dod i mewn i Deml yr Arglwydd ac yn gweld yr Arglwydd Dduw! Dim camera yn agos i'r lle – roedd hwn yn gyfarfyddiad personol, agos, wyneb yn wyneb. Roedd y lle yn ysgwyd ac Eseia yn cael gweld y ceriwbiaid yn addoli Duw ac yn eu clywed yn canu "Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd."

Gyda phob parch i Eisteddfodwyr yr Urdd a'u doniau, dydw i ddim yn credu fod dim a welwyd yn y Fflint, er pa mor dda oedd o, yn cymharu â'r hyn a welodd ac a glywodd Eseia! Mae Eseia yn cael gweledigaeth ryfeddol iawn o fawredd a gogoniant "yr Arglwydd holl-bwerus" ac mae'n cael clywed côr y nefoedd yn canu cân y nefoedd! Darllenwch yr hanes, mae ei brofiad yn dod yn fyw! Mae miliynau o bobl wedi darllen yr hanes ar draws y canrifoedd ac wedi profi'r Ysbryd yn eu harwain i ddweud "dyma fi, anfon fi" fel y gwnaeth Eseia. Mae'r hanes wedi derbyn miliynau o 'hits' a 'likes' felly, cyn bod sôn am facebook nag youtube!

Ond fe fydddech chi'n iawn i feddwl fod Eseia wedi ymateb i alwad Duw cyn y profiad yma. Mae'n broffwyd yn barod, cyn y profiad yma yn y Deml. Fel yna mae hi hefo ni hefyd. Mae Duw wedi ein galw yn y gorffennol ac rydym wedi ymateb, ond mae Duw yn gallu cryfhau ei alwad a'n symud i le gwahanol. Mae Eseia yn cael gweledigaeth arbennig er mwyn ei baratoi at gam nesaf ei wasanaeth i Dduw, sef cyhoeddi cerydd Duw yn ogystal â dyfodiad y Meseia.

Fe fydd y Fro yn wynebu cyfnod newydd cyn hir a diolch am eich cefnogaeth gant y cant i'r weinidogaeth sydd gennym. Ond fe all Duw roi galwad pellach arnom ac fe all ddatguddio ei hun mewn ffordd newydd a nerthol fel y gwnaeth i Eseia. Mae darllen yr hanes yma'n fy nghyffroi i feddwl beth sydd gan yr Arglwydd ar ein cyfer ni eto heddiw? Sut mae o am ein symud ymlaen? Diolch iddo, a chroeso i oedfaon y dydd.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Darlleniad Wythnos Nesaf

Datguddiad 1:12-19 (BCND tud.270 / BCN tud.248)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 5^{ed} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 7^{fed} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Gwener – 10^{fed} • **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sul nesaf – 12^{fed} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 5^{ed} Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sadwrn – 11^{eg} Cynhelir Eisteddfod Dyffryn Elwy dan nawdd Eglwys Soar yn Neuadd Goffa Llanfair Talhaiarn am 1.00 a 6.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir 'Wedi'r Oedfa' yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni Parti'r Llan, Glan Conwy, Glyn Roberts, Erin Rossington, a Robert Douglas Owen. Y Llywydd fydd Rhiannon V. Bumby, Abergele. Croeso i bawb.

Llansannan

- Sul yma – 5^{ed} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfarfod i drefnu rhaglen y Gymdeithas ar gyfer 2016-17.
- Mercher – 8^{fed} Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) erbyn dydd Sul, Mehefin 5ed, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 12^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10. Cynhelir Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2.30. (Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2015-16.) Arweinydd: Nia Wyn Jones, Gellifor.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 5^{ed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfarfod eglwys i holl aelodau Tanyfron.
- Sul nesaf – 12^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 5^{ed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron ac ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 5^{ed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 10.00 a bydd paned i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 5^{ed} Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd a'r oedolion yn dilyn am 11.15. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Derbyn yn Aelodau

Bydd y sesiynau yn cychwyn cyn hir ar gyfer yr ieuenctid 15+ sydd wedi dangos diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes unrhyw un arall â diddordeb, cysylltwch ag Aneurin, Gwion, Sarah neu Mair ar fyrder, os gwelwch yn dda, fel y gallwn drefnu amser cyfleus ar gyfer y cyfarfodydd.

Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.